# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Chwefror 2024 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Geraint Evans, Richard Jones Evans, Arwel Pierce, Richard C Evans, Geraint Edwards

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Bethan Lawton

2. Datgan diddordeb: Cynghorydd Geraint Edwards - Eitem 15 - perchennog y tir amaethyddol dan sylw

3. Derbyn cofnodion 15 Ionawr 2024:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cais Ariannol - Cyngor Ysgol Craig Aderyn:

   **PENDERFYNIAD:** I ofyn am fantolen ariannol.

5. Cais Ariannol - Urdd Gobaith Cymru:

   **PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

6. Cais Ariannol - Elusen Ambiwlans Awyr Cymru:

   **PENDERFYNIAD:** I gyfrannu £50.

7. Cais Ariannol - Cerebral Palsy Cymru:

   **PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

8. Cais Ariannol - Dawns i bawb:

   **PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

9. Cais Ariannol - Radio Ysbyty Gwynedd:

   **PENDERFYNIAD:** I beidio cyfrannu.

10. Cais gan aelod o'r cyhoedd am ardd gymunedol yng nghae chwarae Bryncrug:

    Yr oedd yr unigolyn wedi derbyn gwahoddiad y cyngor i drafod ei syniadau ar gyfer gardd gymunedol.

    Adroddodd y canlynol:
    -yn dymuno gweld gardd gymunedol
    -wedi gweld erthygl yng nghylchgrawn Gardener's World a chynllun Incredible Edible
    -bydd costau'r cynllun yn debygol o fod yn isel
    -angen darn bach o'r cae chwarae
    -angen cyfranogiad o'r gymuned
    -yn fodlon cynorthwyo gyda'r dylunio a phlannu
    -nid oedd yn rhagweld yr ardd gymunedol yn cael ei ffensio
    -wedi adnabod y darn o'r tir sydd y tu ôl i'r pyst, sef y darn sydd yn uwch na'r cae pêl-droed
    -yn fodlon gwirfoddoli
    -nid oes grŵp yn lleol ac am edrych i weld os oes unigolion eraill yn gefnogol
    -rhoi pwyslais ar gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth
    -nodwyd gall yr ardd fod yn blanwyr wedi ei godi
    -nodwyd mai siop flodau Dingle ger y Trallwng yw'r un sydd yn gwerthu planhigion rhatach yn yr ardal

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y syniad mewn egwyddor ac i aros am ragor o wybodaeth am faint y cynllun, yn ddibynnol ar nifer o unigolion sydd yn fodlon gwirfoddoli i gynorthwyo gyda'r plannu a chynnal a chadw hirdymor.

11. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bethan Lawton | Lwfans Cynghorydd | 101872 | £208.00 |
| Richard C Evans | Lwfans Cynghorydd | 101873 | £208.00 |
| Geraint Evans | Lwfans Cynghorydd | 101874 | £208.00 |
| Geraint Edwards | Lwfans Cynghorydd | 101875 | £208.00 |
| B Gwilym | Postio | 101876 | £8.15 |
| Cyngor Gwynedd | Treth (Pafiliwn) | 101877 | £708.88 |
| B Gwilym | Teleffon | 101878 | £93.30 |
| B Gwilym | Cyflog (ôl-daliad) | 101879 | £184.00 |
| Cyllid a Thollau EM | YG (ôl-daliad) | 101880 | £46.00 |
| B Gwilym | Cyflog | 101881 | £228.46 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101882 | £57.20 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

12. Un Llais Cymru - Portread rhad ac am ddim o'i Fawrhydi'r Brenin:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cynnig petai'r Ganolfan yn dymuno derbyn y portread i'w harddangos.

13. Un Llais Cymru - Cytundeb Tâl Cenedlaethol ar gyfer 2023/2024:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cytundeb cenedlaethol, gan ôl-ddyddio cyflog y Clerc i Ebrill 2023.

14. Dŵr Cymru - gwaith trin carthffosiaeth Bryncrug - ymateb i e-bost cynghorydd:

Nodwyd bos y cynghorydd wedi anfon yr e-bost fel unigolyn, ac nid fel cynghorydd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Cynghorwyr i fonitro'r sefyllfa gyda'r gwaith trin carthffosiaeth dros y chwe mis nesaf.

15. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - ymateb i gais CCB am adolygiad o'r angen am giât hygyrch ger Pont Fathew:

Bu i'r Cynghorydd Geraint Edwards ddatgan buddiant sydd ddim yn rhagfarnu, sef ei fod yn berchen ar dir ble lleolir y giât dan sylw a bu iddo aros yn y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei drafod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

16. Biosffer Dyfi UNESCO - cais am gyfarfod:

**PENDERFYNIAD:** I wahodd swyddogion Biosffer Dyfi i annerch y cyngor yng nghyfarfod mis Ebrill 2024 y cyngor.

17. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Penowern, Bryncrug, LL36 9NU (NP5/55/78C):

**PENDERFYNIAD:** Dim sylw.

18. Rheilffordd Talyllyn - Gwahoddiad i ddigwyddiad:

**PENDERFYNIAD:** Enwebwyd y Cynghorydd Geraint Evans i fynychu'r digwyddiad ar ran y cyngor.

19. Defibstore - atgyweirio gwresogydd:

Nodwyd bod y cwmni Defibstore wedi cynnig sylwadau ac wedi cynnig gwresogydd arall ar gyfer y cabinet.

Nododd cynghorydd bod y cabinet yn gweithio erbyn hyn a bod batri newydd wedi ei osod yn y peiriant.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

20. <u>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol Drafft Chwefror 2024:</u>

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn yr argymhellion, ac i dalu £156 a £52 fel treuliau i bob cynghorydd.

21. <u>Cyfoeth Naturiol Cymru - Clawdd Llanw ger Ynys-y-Maengwyn:</u>

Nodwyd bod cyfarfod safle wedi ei gynnal yn ddiweddar wedi ei drefnu gan Mabon ap Gwynfor AS, gan wahodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru, undebau ffermio a chynghorwyr cymuned Bryncrug i'r cyfarfod.

Adroddwyd nad oedd yr un o'r cynghorwyr wedi medru mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod pryderon am lifogydd oherwydd ymrwymiadau eraill.

Nodwyd hefyd bod llythyr wedi ei dderbyn oddi-wrth Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ymateb i lythyr y cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu at Clerc Cyngor Tref Tywyn er mwyn gofyn beth yw bwriad y cyngor i godi ffens i'r gogledd o pont Ynys-y-Maengwyn (cylfat Nant Cynfal sydd yn mynd allan i'r Aber)

22. <u>Cae Chwarae - Adroddiad</u>:

Adroddwyd y canlynol:
-gwresogydd ffan angen prawf PAT
-drws toiled y merched ddim yn cau yn iawn

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gysylltu gyda Mr Barry Owen i roi sylw i ddrws toiled merched

23. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sir</u>:

Nid oedd y cynghorydd sir yn bresennol er mwyn rhoi adroddiad.

Cafwyd wybod bod y cynghorydd Richard C Evans wedi cael profedigaeth yn ddiweddar a chydymdeimlwyd gyda'r cynghorydd ar ei brofedigaeth.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

24. <u>I dderbyn ymddiswyddiad y Clerc:</u>

Gofynnwyd i'r Clerc adael y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn ymddiswyddiad y Clerc gyda diolch mawr.
Dyddiad gorffen y Clerc fydd diwedd Ebrill gyda'r Clerc wedi gorffen y ddau archwiliad ariannol erbyn hynny.
I hysbysebu swydd y Clerc am wythnos yn y Cambrian News, ar y raddfa £12.21-12.42, gan gynnig 15 awr y mis ar gyfer swydd y Clerc a 15 awr y mis ar gyfer swydd Elusen Dolgoch.
Dyddiad cau'r swydd fydd diwedd mis Mawrth a chyfweliadau ym mis Ebrill.
Y Cyng Geraint Evans i roi copi o'r hysbyseb ar dudalen Facebook Bryncrug.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:38pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................